# Eisteddfod Genedlaethol Cymru: Rheolau Sefydlog

### Awst 2023

## Cynnwys


**1. Rhagarweiniad** .......... 2
**2. Ymrwymiadau** .......... 2
**3. Iaith** .......... 2
**4. Strwythur Llywodraethu yr Eisteddfod** .......... 2
**5. Swyddogion yr Elusen** .......... 3
**6. Cymrodyr a Chyn-Lywyddion** .......... 3
**7. Y Llys** .......... 4
**8. Yr Ymddiriedolwyr a'r Bwrdd Rheoli** .......... 4
**9. Y Cyngor** .......... 6
**10. Pwyllgorau a Phanelau** .......... 7
Pwyllgor Archwilio .......... 7
Pwyllgor Gwaith .......... 8
Pwyllgorau a Phanelau Eraill .......... 8
**11. Yr Orsedd a Bwrdd yr Orsedd** .......... 9
**Atodiad 1: Ymrwymiadau – Datganiad o Fwriad** .......... 10
**Atodiad 2: Pwerau a Dyletswyddau'r Llys, Y Bwrdd Rheoli a'r Cyngor** .......... 10
**Atodiad 3: Cyfansoddiad Yr Orsedd a Bwrdd yr Orsedd** .......... 12

# 1. Rhagarweiniad

1.1 Llunnir y Rheolau Sefydlog hyn yn sgil cymal 28 Cyfansoddiad yr Eisteddfod fel Sefydliad Corfforedig Elusennol (**Y Cyfansoddiad**) er mwyn sicrhau trefn effeithiol ar gyfer rheoli a gweinyddu'r Elusen a'r amryw elfennau sy'n rhan o'r Elusen. Os ceir unrhyw wrthdaro neu anghysondeb rhwng darpariaethau'r Rheolau Sefydlog hyn a'r Cyfansoddiad, y Cyfansoddiad sydd i gael blaenoriaeth.

1.2 Mae'r Rheolau Sefydlog yn amlinellu pwy sydd yn gyfrifol ac yn atebol am wahanol agweddau o waith yr Elusen; trefniadau ar gyfer rheoli a gweinyddu gwaith Llys, Cyngor, Bwrdd Rheoli, Pwyllgorau a Phanelau yr Eisteddfod; trefniadau ar gyfer rheoli a gweinyddu gwaith yr Orsedd; a darpariaethau ar gyfer amddiffyn **Ymrwymiadau'r** Elusen.

1.3 Cyfrifoldeb yr Ymddiriedolwyr yw sicrhau bod y Rheolau Sefydlog yn gyson â'r Cyfansoddiad a Deddf Elusennau 2011 **(Y Ddeddf)**.

1.4 Rhaid i'r Rheolau Sefydlog gael sêl bendith yr Ymddiriedolwyr, y Cyngor a'r Llys cyn y byddant yn weithredol. Yn amodol ar gymal 3 isod, ni ellir newid y Rheolau Sefydlog ond drwy benderfyniad gan y Llys a gefnogir gan o leiaf ddwy ran o dair o'r rhai sy'n bresennol yn bersonol ac yn pleidleisio mewn Cyfarfod Cyffredinol o'r Llys.

1.5. Mae termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon i'w diffinio yn yr un modd â'r termau hynny fel y'i nodir yn y Cyfansoddiad.

# 2. Ymrwymiadau

2.1 Pwrpas yr Ymrwymiadau yw diffinio sut y dylai'r Eisteddfod Genedlaethol gyflawni'r Amcanion a nodir yn y Cyfansoddiad. Mae'r **Ymrwymiadau** wedi eu cynnwys yn **Atodiad 1.** Bydd yn ofynnol i'r Ymddiriedolwyr weithredu yn unol â'r Ymrwymiadau. Os caiff yr Ymddiriedolwyr unrhyw anhawster i weithredu'r Ymrwymiadau neu os cyfyd unrhyw wrthdaro tebygol o safbwynt blaenoriaethu Ymrwymiadau, dylai'r Ymddiriedolwyr gyfeirio'r mater i'r Cyngor am arweiniad.

2.2 Cyfrifoldeb yr Ymddiriedolwyr a'r Cyngor fydd adolygu'r Ymrwymiadau a sicrhau eu bod yn para'n berthnasol ar gyfer cyflawni'r Amcanion, ond ni ellir newid yr Ymrwymiadau heb ganiatâd y Llys yn unol â 2.3 a 3.0 isod.

2.3 Yn amodol ar 3.0 isod, ni ellir newid yr Ymrwymiadau heb benderfyniad gan y Llys mewn Cyfarfod Cyffredinol gyda mwyafrif o ddwy ran o dair o'r rhai sy'n bresennol ac yn pleidleisio. Gall yr argymhelliad gwreiddiol i newid yr Ymrwymiadau ddod gan unrhyw Aelod.

# 3. Iaith

Y Gymraeg fydd iaith yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Ŵyl. Ni ellir newid na diddymu y cymal hwn o'r Rheolau Sefydlog o dan unrhyw amgylchiad.

# 4. Strwythur Llywodraethu yr Eisteddfod

4.1 Mae strwythur llywodraethu yr Eisteddfod yn cynnwys y Llys, y Bwrdd Rheoli, y Cyngor a nifer o Bwyllgorau a Phanelau Canolog.

4.2 Mae **Llys yr Eisteddfod** yn cynnwys holl aelodau'r Eisteddfod ac mae Swyddogion ac Ymddiriedolwyr yr Elusen yn atebol iddynt. Rhaid cynnal Cyfarfod Cyffredinol o'r Llys yn flynyddol. Amlinellir Pwerau a Dyletswyddau'r Llys yn llawn yn Atodiad 2.

4.3 Yr **Ymddiriedolwyr** sy'n gyfrifol am reoli busnes a gweithredoedd yr Eisteddfod o ddydd i ddydd a sicrhau bod yr Elusen yn hyrwyddo'r Amcanon a nodir yn y Cyfansoddiad a'r Ymrwymiadau a nodir yn Atodiad 1.

4.4 Mae **Bwrdd Rheol**i'r Eisteddfod wedi ei ffurfio o Ymddiriedolwyr yr Eisteddfod ac yn gyfrifol am oruchwylio pob agwedd o waith yr Eisteddfod. Amlinellir Pwerau a Dyletswyddau'r Bwrdd Rheoli yn Atodiad 2.

4.5 Mae **Cyngor** yr Eisteddfod yn gweithredu fel bwrdd goruchwylio a chorff ymgynghorol mewn

perthynas ag Amcanion ac Ymrwymiadau yr Elusen. Mae'r Cyngor yn atebol i Lys yr Eisteddfod a rhaid iddo gwrdd o leiaf 3 gwaith y flwyddyn. Amlinellir Pwerau a Dyletswyddau'r Cyngor yn Atodiad 2.

4.6 Gall y Bwrdd Rheoli a'r Cyngor ffurfio **Pwyllgorau a Phanelau Canolog** a **Phwyllgor Gwaith Lleol** ar gyfer pob Gŵyl yn unol ag Adran 10 isod. Bydd yr holl Bwyllgorau a Phanelau hyn yn atebol i'r Ymddiriedolwyr oni nodir yn wahanol yn y Cyfansoddiad neu'r Rheolau Sefydlog hyn.

4.7 **Bwrdd yr Orsedd** sy'n gyfrifol am weinyddu gwaith yr Orsedd yn unol ag Atodiad 3 y Rheolau Sefydlog hyn. Mae'r Bwrdd yn atebol i Lys yr Eisteddfod ac mae gwaith yr Orsedd yn ddarostyngedig i'r Amcanion yn y Cyfansoddiad, y Rheolau Sefydlog hyn a'r Ddeddf.

# 5. Swyddogion yr Elusen

5.1 Bydd hawl gan Aelodau'r Llys i benodi **Llywydd y Llys**, i weithredu hefyd fel **Cadeirydd** y **Bwrdd Rheoli** am gyfnod o hyd at 3 blynedd, ond bydd yr unigolyn a benodir yn gymwys i'w ail-benodi am un cyfnod ychwanegol. Bydd yn ofynnol i'r unigolyn a benodir feddu ar sgiliau addas a phrofiad perthnasol i gadeirio Bwrdd Rheoli elusen o faint a natur yr Eisteddfod.

5.2 Bydd hawl gan y Llys i benodi unigolyn i weithredu fel **Ysgrifennydd y Llys, yr Ymddiriedolwyr a'r Cyngor** am gyfnod hyd at 3 blynedd, ond bydd yr unigolyn a benodir yn gymwys i'w ail-benodi am ddau gyfnod ychwanegol. Bydd yn ofynnol i'r Ysgrifennydd feddu ar sgiliau neu brofiad perthnasol / addas. Ni ddylai'r Ysgrifennydd fod yn Ymddiriedolwr, ond bydd hawl gan yr Ysgrifennydd i fynychu cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr fel sylwedydd.

5.3 Bydd hawl gan y Llys i benodi un o'r Ymddiriedolwyr (neu i gadarnhau penodiad unigolyn o dan 8.5 fel Ymddiriedolwr ychwanegol) i weithredu fel **Trysorydd** yr Elusen am gyfnod o hyd at 3 blynedd, ond bydd yr unigolyn a benodir yn gymwys i'w ail-benodi am ddau gyfnod ychwanegol. Bydd yn ofynnol i'r Trysorydd feddu ar gymwysterau proffesiynol addas a phrofiad perthnasol.

5.4 Bydd y swyddi a nodir yn 5.1 - 5.3 yn cael eu hysbysebu yn gyhoeddus pan ddaw cyfnod gwasanaethu'r deiliaid i ben, a rhaid anfon unrhyw geisiadau / enwebiadau at y Prif Weithredwr o leiaf 21 diwrnod cyn Cyfarfod Cyffredinol y Llys.

5.5 Bydd hawl gan aelodau'r Cyngor i ethol y canlynol am gyfnod o hyd at 3 blynedd:

5.5.1 **Cadeirydd y Cyngor**, i weithredu hefyd fel Is-lywydd y Llys ac Is-gadeirydd y Bwrdd Rheoli

5.5.2 **Is-gadeirydd y Cyngor**, i weithredu hefyd fel Ymddiriedolwr

Rhaid sicrhau cydbwysedd rhywedd o ran deiliaid y swyddi hyn, a bydd yr unigolion a etholir yn gymwys i'w ail-ethol am un cyfnod ychwanegol, yn unol â threfn penodi Swyddogion y Llys.

5.6 Bydd y broses o ethol neu benodi'r Swyddogion a nodir yn 5.1 - 5.5 uchod yn cael ei threfnu a'i harolygu gan y Panel Enwebu gyda chymorth y Prif Weithredwr.

5.7 Bydd yr Archdderwydd yn Is-lywydd y Llys er anrhydedd yn rhinwedd ei swydd.

5.8 Bydd Cadeiryddion Pwyllgorau Gwaith y ddwy Eisteddfod sydd i'w cynnal nesaf ar ôl y cyfarfod blynyddol yn Is-lywyddion y Llys er anrhydedd yn rhinwedd eu swyddi.

5.9 Bydd gofyn i bob un o'r Swyddogion a nodir yn 5.1 - 5.8 uchod ymddeol o'i Swydd ar ddiwedd y cyfnod penodi perthnasol.

5.10 Bydd hawl gan yr Ymddiriedolwyr neu'r Cyngor i ddiswyddo deiliad unrhyw Swydd a nodir yn 5.1 - 5.8 o'r Swydd honno yn unol â'r broses sy'n dilyn. Er mwyn cychwyn proses diswyddo bydd angen cyflwyno i Lywydd y Llys neu i'r Ysgrifennydd gŵyn swyddogol ysgrifenedig, wedi ei harwyddo gan 5 o Ymddiriedolwyr, neu gan 10 aelod o'r Cyngor, yn nodi natur y gŵyn. Er mwyn ystyried y gŵyn, cynhelir cyfarfod o'r Panel Cwynion, Disgyblu a Diswyddo yn unol â 10.3.9 isod. Bydd yn ofynnol i'r Panel wahodd sylwadau'r unigolyn dan sylw ac ystyried y mater yng ngoleuni unrhyw sylwadau a wneir gan yr unigolyn neu ar ei r(h)an ac yna gwneud argymhelliad i'r Bwrdd Rheoli a'r Cyngor. Er mwyn diswyddo, bydd angen sicrhau penderfyniad gan fwyafrif aelodau'r Bwrdd Rheoli a'r Cyngor.

# 6. Cymrodyr a Chyn-Lywyddion

6.1 Bydd hawl gan y Cyngor i ethol, er anrhydedd, aelod i fod yn **Gymrawd yr Eisteddfod** am oes ar gyfrif blynyddoedd o wasanaeth arbennig i'r Eisteddfod.

6.2 Ni ellir ethol mwy nag un Cymrawd y flwyddyn.
6.3 Cyfyngir nifer y Cymrodyr ar unrhyw adeg i bump.
6.4 Bydd gan Gymrodyr hawl i fynychu cyfarfodydd y Cyngor fel aelodau llawn, gyda'r hawl i wneud sylwadau ac i wneud cynigion, ac i bleidleisio.
6.5 Ni fydd angen i Gymrodyr wneud taliadau tanysgrifiad.
6.6 Bydd **Cyn-Lywyddion** yn Aelodau o'r Llys gyda hawl i bleidleisio yno, ac yn aelodau llawn er anrhydedd o'r Cyngor am oes, gyda'r hawl i wneud sylwadau ac i wneud cynigion, ac i bleidleisio.

# 7. Y Llys

**Pwerau'r Llys**

7.1 Mae'r Llys yn cynnwys holl aelodau'r Eisteddfod/Elusen, gyda'r holl hawliau a roddir iddynt gan y Cyfansoddiad a'r Rheolau Sefydlog hyn.
7.2 Bydd y Llys mewn Cyfarfodydd Cyffredinol yn ystyried ac yna derbyn neu wrthod adroddiadau gan y Bwrdd Rheoli, y Cyngor a Bwrdd yr Orsedd, a bydd hawl gan y Llys i sicrhau bod Amcanion ac Ymrwymiadau yr Eisteddfod yn cael eu gweithredu'n briodol.
7.3 Mae Atodiad 2 yn cynnwys rhestr o bwerau a chyfrifoldebau'r Llys.

**Cyfarfodydd y Llys**

7.4 Cynhelir a gweinyddir y Cyfarfodydd Cyffredinol (sef cyfarfodydd y Llys) yn unol â gofynion y Cyfansoddiad a'r Ddeddf.
7.5 Gellir gwahodd y Wasg i Gyfarfod Cyffredinol, ond bydd hawl gan gadeirydd y cyfarfod i fynnu fod y Wasg yn gadael y cyfarfod neu i beidio â'u gwahodd os bydd hynny'n briodol ym marn cadeirydd y cyfarfod.

**Tanysgrifiadau Aelodaeth**

7.6 Gall yr Ymddiriedolwyr gyda chytundeb y Cyngor bennu swm tanysgrifiadau Aelodaeth a'r dyddiad talu, yn unol â'r canllawiau canlynol:
- 7.6.1 dylid adolygu'r taliadau tanysgrifiad bob blwyddyn
- 7.6.2 bydd hawl i bennu taliadau tanysgrifiad blynyddol neu am gyfnod o flynyddoedd neu am oes, fel y gwelant yn dda
- 7.6.3 ni fydd gofyn i Aelodau a fu'n aelodau am oes o'r Eisteddfod Genedlaethol cyn 31 Rhagfyr 2004 dalu tanysgrifiad
- 7.6.4 bydd tanysgrifiad yn para hyd at ddiwedd y cyfnod perthnasol, neu at ddiwedd cyfnod Aelodaeth yr Aelod, neu hyd oni ddiddymir yr Elusen (pa un bynnag a ddigwydd gyntaf) ac ni fydd modd hawlio ad-daliad ar gyfer unrhyw ran o gyfnod

# 8. Yr Ymddiriedolwyr a'r Bwrdd Rheoli

**Penodi Ymddiriedolwyr**

8.1 Penodir deiliaid y Swyddi canlynol yn Ymddiriedolwyr, yn rhinwedd ac am gyfnod y Swydd berthnasol:
- 8.1.1 Llywydd y Llys
- 8.1.2 Cadeirydd y Cyngor
- 8.1.3 Is-Gadeirydd y Cyngor
- 8.1.4 Os digwydd blwyddyn (Blwyddyn Eithriadol) yn ystod y tymor hwn o dair blynedd lle, oherwydd amgylchiadau eithriadol:
  (1) na fydd Eisteddfod wedi ei chynnal; neu
  (2) bydd Eisteddfod wedi ei chynnal ond nid fel gŵyl gyhoeddus sydd yn agored i bawb i fod yn bresennol ynddi gall Bwrdd yr Eisteddfod estyn y tymor hwn wrth flwyddyn ychwanegol am bob Blwyddyn Eithriadol hyd at uchafswm o dair o flynyddoedd ychwanegol.

Os estynnir y tymor hwn yn y fath fodd:
(a) fe estynnir hefyd i'r un graddau y cyfnodau o dair blynedd a nodir yn 9.4 ac yn 10.4.2

(b) fe estynnir i'r un graddau dymor aelodau o Fwrdd yr Orsedd a etholwyd dan 10.2 ac fe ohirir i'r un graddau y rheidrwydd ar i'r aelodau hynny o Fwrdd yr Orsedd gilio o'u swyddi dan 10.2.2 (ac fe ddarllenir y cyfeiriad at chwe blynedd yn 10.2.2 fel cyfeiriad at gyfanswm dau dymor fel yr estynnwyd nhw).

8.2 Penodir un Ymddiriedolwr gan Fwrdd yr Orsedd am gyfnod hyd at 3 blynedd. Bydd y person a benodir yn gymwys i'w ail-ethol am ddau gyfnod ychwanegol.

8.3 Penodir un Ymddiriedolwr gan Bwyllgor Gwaith pob Gŵyl am gyfnod o dair blynedd, i gychwyn ym mis Medi ddwy flynedd cyn blwyddyn yr Ŵyl, a gorffen ar ddiwedd Awst yn y flwyddyn wedi'r flwyddyn y cynhaliwyd yr Ŵyl. Os na fydd Pwyllgor Gwaith wedi hysbysu penodiad, bydd hawl gan yr Ymddiriedolwyr i gyfethol unigolyn i weithredu fel Ymddiriedolwr hyd at y Cyfarfod Cyffredinol nesaf sy'n dilyn, ac wedi hynny gyda chaniatâd y Llys a nodir yn 8.1 (a lle estynnwyd y tymor, y tymor estynedig hwnn), oni bai bod swydd yr Archdderwydd wedi dod yn wag.

8.4 Etholir neu benodir hyd at **12** Ymddiriedolwr ychwanegol yn unol â'r canllawiau a'r drefn ganlynol:

8.4.1 Bwriedir sicrhau y bydd ystod eang o sgiliau a phrofiad o fewn y Bwrdd Rheoli / Ymddiriedolwyr, gan gynnwys sgiliau a phrofiad diwylliannol, marchnata, technegol, busnes, ariannol, nawdd, cyfreithiol, rheoli digwyddiadau a rheolaeth, ynghyd â phrofiad blaenorol o waith Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Bydd yn ofynnol i bob Ymddiriedolwr fedru cyfathrebu'n rhugl drwy'r iaith Gymraeg

8.4.2 Bwriedir hefyd ceisio sicrhau cydbwysedd rhesymol ar draws yr holl Ymddiriedolwyr o safbwynt rhyw, oedran a chefndir yn unol ag Ymrwymiad 6 (Atodiad 1)

8.4.3 Bydd yn ofynnol i un o'r Ymddiriedolwyr feddu ar y sgiliau a'r profiad perthnasol ar gyfer ymgymryd â Swydd **Trysorydd** yr Elusen

8.4.4 Bydd yn ofynnol i rai o'r Ymddiriedolwyr feddu ar y sgiliau a'r profiad perthnasol i fod yn aelodau o bwyllgorau megis y Pwyllgor **Adnoddau Dynol**, **Archwilio, Artistig**, **Cynhwysedd ac Amrywiaeth**, **Diwylliannol**, **Marchnata** a **Technegol,**

8.4.5 Penodir hyd at bedwar Ymddiriedolwr gan y Cyngor am gyfnod o hyd at dair blynedd, a phenodir hyd at wyth arall gan y Panel Enwebu. Mewn perthynas â phob etholiad a phenodiad dylid gweithredu trefn sy'n adlewyrchu canllawiau'r Comisiynwyr Elusen (sydd yn cynnwys asesu ymgeiswyr ar sail rhestr o gymwysterau craidd perthnasol) a chyflwyno argymhelliad i'r Cyngor a'r Llys. Ni fydd etholiad na phenodiad o dan y cymal hwn yn effeithiol hyd oni chaiff ei gadarnhau gan y Llys yn y Cyfarfod Cyffredinol nesaf sy'n dilyn

8.4.6 Etholir hyd at chwe Ymddiriedolwr gan y Llys yn unol â chymal 13(2) y Cyfansoddiad

8.4.7 Bydd hawl gan yr Ymddiriedolwyr i gyfethol hyd at 2 berson sydd â chymwysterau addas i fod yn ymddiriedolwyr

8.5 Gall y Llys neu'r Ymddiriedolwyr benodi Ymddiriedolwr newydd er mwyn llenwi bwlch ar unrhyw adeg yn unol â'r ddarpariaeth yng nghymal 13(2) y Cyfansoddiad

8.6 Bydd y broses o benodi Ymddiriedolwyr a nodir yn 8.1 - 8.5 uchod yn cael ei threfnu a'i harolygu gan y Panel Enwebu gyda chymorth yr Ysgrifennydd a'r Prif Weithredwr, a dylid hysbysebu yn gyhoeddus am Ymddiriedolwyr newydd yn rheolaidd

8.7 Bydd yr ymddiriedolwyr yn ffurfio Bwrdd Rheoli'r Eisteddfod ac yn gyfrifol am reoli busnes a gweithredoedd yr Eisteddfod o ddydd i ddydd

**Cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli**

8.8 Mae Atodiad 2 yn cynnwys rhestr o bwerau a dyletswyddau'r Bwrdd Rheoli.

8.9 Rhaid i'r Bwrdd Rheoli gwrdd o leiaf 8 gwaith y flwyddyn er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau'n llawn a goruchwylio gwaith staff a swyddogion yr Eisteddfod.

8.10 Disgwylir i Brif Weithredwr a phrif staff yr Elusen fynychu cyfarfodydd y Bwrdd, ond heb hawl pleidleisio gan na fyddant yn Ymddiriedolwyr. Gall cadeirydd y cyfarfod fynnu fod y staff (neu rai ohonynt) yn gadael y cyfarfod os bydd hynny'n briodol ym marn y cadeirydd.

8.11 Ni fydd cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr yn agored i'r Wasg.

8.12 Bydd hawl gan yr Ymddiriedolwyr i wneud rheolau sy'n gyson â'r Cyfansoddiad, y Rheolau Sefydlog a'r Ddeddf er mwyn rheoli gweithrediadau yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rheoli ac er mwyn rheoli gweinyddiad yr Elusen a defnydd o'i sêl (os oes un).

# 9. Y Cyngor

**Swyddogaethau'r Cyngor**

9.1 Mae Atodiad 2 yn cynnwys rhestr o bwerau a dyletswyddau'r Cyngor.

9.2 Swyddogaethau'r Cyngor yw gweithredu fel bwrdd goruchwylio a chorff ymgynghorol, fel a nodir yn 9.3 – 9.4 isod.

9.3 Fel corff ymgynghorol, bydd disgwyl i'r Cyngor:

- 9.3.1 edrych i'r dyfodol a chymryd golwg strategol ar waith a datblygiad yr Eisteddfod, yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru
- 9.3.2 gomisiynu gwaith ymchwil ar faterion o bwys i'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru (yn amodol ar sicrhau'r adnoddau ariannol ar gyfer hyn)

9.4 Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau sy'n ymwneud â Blwyddyn Eithriadol a nodir yn 8.1, fel bwrdd goruchwylio, bydd hawl gan y Cyngor i:

- 9.4.1 ethol hyd at bedwar Ymddiriedolwr yn unol ag 8.4.5 uchod
- 9.4.2 drafod, derbyn neu wrthod a chyfeirio'n ôl adroddiad cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr am y penderfyniadau a wnaed yn y cyfnod ers cyfarfod diwetha'r Cyngor
- 9.4.3 ystyried i ba raddau y mae'r Ymddiriedolwyr yn parchu'r Amcanion a'r Ymrwymiadau wrth reoli'r Elusen
- 9.4.4 drafod a phenderfynu ar unrhyw gais gan yr Ymddiriedolwyr i newid yr Amcanion neu i wneud unrhyw beth sy'n groes i'r Ymrwymiadau neu i ofyn am arweiniad o safbwynt blaenoriaethu Ymrwymiadau
- 9.4.5 adolygu gwaith y **Pwyllgor Archwilio** a thrafod a derbyn neu wrthod ei adroddiadau
- 9.4.6 sicrhau bod y drefn ar gyfer holl etholiadau, penodiadau a chyfetholiadau mewn perthynas â'r Elusen yn ateb gofynion y Cyfansoddiad
- 9.4.7 ethol Cadeirydd y Cyngor ac Is-Gadeirydd y Cyngor yn unol â 5.4 uchod
- 9.4.8 gyfethol hyd at 6 aelod i'r Cyngor yn unol ag 8.7.2 isod ac i lenwi bylchau achlysurol yn ei aelodaeth yn unol â 9.7.3 isod
- 9.4.9 benodi cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ynghyd â thri aelod o'r Pwyllgor yn unol â 10.1.3 isod
- 9.4.10 drafod gyda'r Ymddiriedolwyr a chytuno tanysgrifiadau Aelodaeth yn unol â 7.6
- 9.4.11 ethol Cymrodyr yn unol â 6.1 uchod

**Aelodaeth y Cyngor**

9.5 Bydd y Cyngor yn cynnwys hyd at **36** aelod i'w hethol, penodi neu gyfethol o dan 9.6 - 9.7 isod, ynghyd â'r aelodau ychwanegol a nodir yn 6.4 (Cymrodyr), 6.6 (Cyn-Lywyddion), ac 11.5 (yr Orsedd).

9.6 Caiff hyd at **24** o aelodau'r Cyngor eu hethol gan y Llys, yn unol â pha bynnag broses etholiad a gaiff ei fabwysiadu gan y Llys ac sydd yn gyson â'r Ddeddf.

9.7 Yn amodol ar 9.8 a 9.9 isod:

9.7.1 Bydd hawl gan yr Ymddiriedolwyr i argymell hyd at **6** o enwau ar gyfer eu penodi gan y Cyngor fel aelodau'r Cyngor, a

9.7.2 Bydd hawl gan y Cyngor i gyfethol hyd at **6** aelod (er enghraifft, cynrychiolwyr Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru), wedi ymgynghori gyda'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr

9.7.3 Bydd hawl gan y Cyngor i gyfethol aelodau i lenwi bylchau achlysurol yn ei aelodaeth.

9.8 Pan yn ystyried unigolion ar gyfer eu penodi / cyfethol o dan 9.7, bydd yn ofynnol talu sylw i'r egwyddorion canlynol:

- 9.8.1 Rhaid adolygu aelodaeth y Cyngor a sicrhau cydbwysedd sgiliau a phrofiad o waith yr Eisteddfod ynghyd â phrofiad addas mewn perthynas â'r swyddogaethau a nodir yn 9.3 – 9.4
- 9.8.2 Dylid ceisio sicrhau cydbwysedd rhesymol ar draws y Cyngor o safbwynt rhyw, oedran, cysylltiadau lleol a chefndir yn unol ag Ymrwymiad 6 (Atodiad 1)
- 9.8.3 Dylid hysbysebu cyfleoedd i wasanaethu ar y Cyngor yn gyhoeddus yn flynyddol

9.9 Caiff aelodau'r Cyngor eu hethol neu eu penodi am gyfnod hyd at 3 blynedd, a byddant ar dir i'w hail-ethol am ddim hwy na dau gyfnod ychwanegol, ond bydd hawl gan y Cyngor i ymestyn y cyfnod aelodaeth er mwyn i Gadeirydd a/neu Is-Gadeirydd y Cyngor allu cwblhau'r cyfnod arferol o wasanaeth yn y Swyddi hyn.

9.10 Dylai o leiaf traean o'r aelodau a etholir bob blwyddyn fod yn perthyn i'r rhyw lleiafrifol y flwyddyn honno.

9.11 Bydd aelodaeth unigolyn o'r Cyngor yn dod i ben os yw ef neu hi:

- 9.11.1 yn ymddeol trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Ymddiriedolwyr
- 9.11.2 yn absennol o ddau gyfarfod o'r Cyngor yn ystod cyfnod o 12 mis heb esboniad derbyniol
- 9.11.3 yn peidio â bod yn Aelod o'r Llys
- 9.11.4 yn analluog i reoli ei faterion ei hun
- 9.11.5 yn cael ei ddiswyddo gan y Llys trwy benderfyniad wedi ei basio gan o leiaf ddwy ran o dair o'r Aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio mewn Cyfarfod Cyffredinol ar ôl i'r cyfarfod wahodd sylwadau'r unigolyn dan sylw ac ystyried y mater yng ngoleuni unrhyw sylwadau a wneir

9.12 Disgwylir i aelodau'r Cyngor fynychu Cyfarfodydd Cyffredinol y Llys.

9.13 Bydd y broses o ethol, penodi a chyfethol aelodau'r Cyngor yn cael ei threfnu a'i harolygu gan yr Ysgrifennydd a'r Prif Weithredwr.

**Gweithgaredd y Cyngor**

9.14 Bydd y Cyngor yn cynnal o leiaf dri chyfarfod bob blwyddyn.

9.15 Gellir galw cyfarfod brys o'r Cyngor gan Gadeirydd y Cyngor neu drwy gyflwyno i'r Ysgrifennydd gais ysgrifenedig wedi ei arwyddo gan 10 aelod o'r Cyngor.

9.16 Y Cworwm mewn cyfarfod o'r Cyngor fydd hanner aelodau'r Cyngor ar y pryd. Os nad oes cworwm o fewn hanner awr i'r amser a nodwyd ar gyfer cychwyn y cyfarfod, rhaid gohirio'r cyfarfod i ddyddiad arall.

9.17 Gan y Cyngor y bydd yr hawl i ethol Cadeirydd y Cyngor ac Is-Gadeirydd y Cyngor yn unol â gofynion 5.5 uchod a 9.18 isod. Bydd yn ofynnol i'r unigolion a etholir weithredu hefyd fel Ymddiriedolwyr yr Elusen ac ymgymryd â'r cyfrifoldebau perthnasol fel Ymddiriedolwyr.

9.18 Bydd Cadeirydd y Cyngor neu (os yw Cadeirydd y Cyngor yn methu neu'n amharod i wneud hynny) Is-gadeirydd y Cyngor yn cadeirio'r cyfarfod. Yn absenoldeb Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor, dylai aelodau'r Cyngor sy'n bresennol ethol unigolyn o'u plith i gadeirio'r cyfarfod.

9.19 Gellir dod i benderfyniad ar bob mater trwy fwyafrif syml y pleidleisiau a fwriwyd mewn cyfarfod (oni nodir yn wahanol yn y Rheolau hyn mewn perthynas ag unrhyw fater penodol). Bydd penderfyniad ysgrifenedig wedi ei arwyddo gan holl aelodau'r Cyngor yr un mor ddilys â phenderfyniad a basiwyd mewn cyfarfod (ac i'r pwrpas hwn gall y penderfyniad gael ei gynnwys mewn mwy nag un ddogfen ac ystyrir ei fod wedi ei basio ar ddyddiad y llofnod diwethaf).

9.20 Ac eithrio cadeirydd y cyfarfod, sydd ag ail bleidlais neu bleidlais fwrw os bydd pleidlais gyfartal, bydd gan bob aelod o'r Cyngor un bleidlais ar bob mater.

9.21 Nid yw nam technegol nad yw aelodau'r Cyngor yn ymwybodol ohono ar y pryd yn annilysu penderfyniadau a wnaed mewn cyfarfod.

9.22 Disgwylir i'r Ymddiriedolwyr a Phrif Weithredwr a phrif staff yr Elusen fynychu cyfarfodydd y Cyngor, ond heb hawl pleidleisio oni fyddant hefyd yn aelodau o'r Cyngor.

9.23 Gellir gwahodd y Wasg i gyfarfodydd rheolaidd y Cyngor, ond bydd hawl gan gadeirydd y cyfarfod fynnu fod y Wasg yn gadael y cyfarfod neu i beidio eu gwahodd os bydd hynny'n briodol ym marn y cadeirydd.

9.24 Bydd staff yr Elusen yn cynnig cefnogaeth weinyddol i'r Cyngor yn unol â threfniant i'w gytuno a'i adolygu o dro i dro gan yr Ysgrifennydd a'r Prif Weithredwr.

# 10. Pwyllgorau a Phanelau

**Pwyllgor Archwilio**

10.1 Sefydlir Pwyllgor Archwilio fel a ganlyn:

- 10.1.1 Bydd y Pwyllgor Archwilio yn adrodd i'r Cyngor
- 10.1.2 Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cynnwys Cadeirydd ac o leiaf bedwar a hyd at chwe aelod. Ni all y Cadeirydd fod yn un o Ymddiriedolwyr yr Elusen.
- 10.1.3 Penodir cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ynghyd â hyd at bedwar aelod o'r Pwyllgor gan y Cyngor

10.1.4 Bydd hawl gan yr Ymddiriedolwyr i benodi hyd at ddau aelod i'r Pwyllgor. Bydd yn ofynnol i'r Pwyllgor Archwilio gyfarfod o leiaf ddwywaith mewn blwyddyn, gan gynnwys cyfarfod i ystyried y Cyfrifon Blynyddol.

**Pwyllgor Gwaith**

10.2 Sefydlir Pwyllgor Gwaith yn lleol ar gyfer pob Gŵyl. Rhaid sefydlu 'Cytundeb Cyd-ddealltwriaeth' rhwng yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Gwaith er mwyn nodi cyfrifoldebau ac egluro'r berthynas fanwl rhyngddynt. Gellir disgwyl y gallai'r manylion amrywio o ardal i ardal, ond byddai'n arferol i gyfrifoldebau'r Pwyllgor Gwaith gynnwys (i) argymell y rhestr testunau a chystadlaethau ar gyfer yr ŵyl, (ii) argymell gweithgareddau priodol eraill gan gynnwys y Cyhoeddi a Chyngherddau, a threfnu'r gweithgareddau hynny gyda chaniatâd yr Ymddiriedolwyr, (iii) codi ymwybyddiaeth o'r Ŵyl o fewn yr ardal leol, a (iv) chodi'r gronfa leol ar gyfer yr Ŵyl. Bydd hawl gan bob Pwyllgor Gwaith i sefydlu is-bwyllgorau i ofalu am rai o'r cyfrifoldebau hyn ac i benodi un Ymddiriedolwr yn unol â 7.3.

**Pwyllgorau a Phanelau Eraill**

10.3 Bydd y Pwyllgorau a'r Panelau canlynol yn rhan o strwythur yr Elusen. Bydd hawl gan y Bwrdd Rheoli ar ôl ymgynghori â'r Cyngor i sefydlu pa bynnag Bwyllgorau, Is-bwyllgorau a Phanelau sydd eu hangen ym marn yr Ymddiriedolwyr er mwyn cyflawni gwaith yr Elusen, ac i ail-strwythuro neu i ddileu unrhyw Bwyllgorau, Is-bwyllgorau a Phanelau.

10.3.1 **Pwyllgor Diwylliannol** i gydlynu gwaith panelau sefydlog, i gynnig cyngor arbenigol ar feysydd cystadleuol penodol ac i gymryd cyfrifoldeb am y rhestr gystadlaethau (wedi ymgynghoriad â'r Pwyllgor Gwaith lleol a'i is-bwyllgorau). Dylai'r Pwyllgor Diwylliannol gynnwys cadeiryddion y panelau sefydlog ynghyd ag aelodau eraill annibynnol. Dylai Ymddiriedolwr gadeirio'r Pwyllgor.

10.3.2 **Pwyllgor Gweithredu'r Rheol Gymraeg** i arolygu ac adrodd ar weithredu'r Rheol Gymraeg ym mhob Gŵyl. Bydd y Pwyllgor yn atebol i'r Cyngor, ac fe gaiff ei gadeirio gan aelod o'r Cyngor. Dylai'r Cyngor benodi'r cadeirydd ac un aelod, a dylai'r Ymddiriedolwyr benodi un aelod.

10.3.3 **Pwyllgor Technegol** i gynnig cyngor arbenigol am y maes, adeiladau, trafnidiaeth, a holl agweddau iechyd a diogelwch mewn perthynas â'r Ŵyl

10.3.4 **Pwyllgor Marchnata** i gynnig cyngor arbenigol ar weithgareddau hyrwyddo a marchnata'r Eisteddfod a'r Ŵyl

10.3.5 **Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chyflogau** i gynnig cyngor arbenigol ar faterion yn ymwneud â staffio a chyflogau

10.3.6 **Pwyllgor Cynhwysedd ac Amrywiaeth** i edrych ar holl weithdrefnau a gweithgareddau'r Eisteddfod i sicrhau eu bod yn agored a chynhwysol yn unol ag Ymrwymiad 6 (Atodiad 1)

10.3.7 **Pwyllgor Artistig** i gynnig cyngor arbenigol ar raglenni hwyrol a phrosiectau artistig mawr

10.3.8 **Panel Enwebu** i argymell enwau Ymddiriedolwyr, aelodau'r Cyngor, ac aelodau Pwyllgorau a phanelau sefydlog er mwyn cyflawni gofynion y Rheolau Sefydlog. Bydd y Panel Enwebu yn cynnwys 5 aelod, sef Llywydd y Llys (cadeirydd) ynghyd â dau aelod i'w penodi gan y Cyngor a dau aelod i'w penodi gan yr Ymddiriedolwyr. Bydd gwaith y Panel Enwebu yn cael ei drefnu a'i arolygu gan yr Ysgrifennydd a'r Prif Weithredwr.

10.3.9 **Panel Cwynion, Disgyblu a Diswyddo** i gwrdd yn ôl yr angen i ystyried unrhyw gŵyn ysgrifenedig a dderbynnir am Swyddogion yr Elusen yn unol â 5.10 uchod, a chwynion am Ymddiriedolwyr yr Elusen a'r Staff. Bydd y panel yn cynnwys 3 aelod, gan gynnwys o leiaf 1 o Swyddogion yr Elusen ac 1 Ymddiriedolwr. Dylid penodi aelodau wrth gefn rhag ofn y derbynnir cwyn yn erbyn aelod o'r Panel, ac ni all unigolyn y gwneir cwyn yn ei erbyn fod yn aelod o'r Panel sy'n ystyried y gŵyn. Bydd gwaith y Panel Cwynion, Disgyblu a Diswyddo yn cael ei drefnu a'i arolygu gan yr Ysgrifennydd a/neu'r Prif Weithredwr.

**Cyfrifoldebau, Aelodaeth a Chyfarfodydd Pwyllgorau a Phanelau**

10.4 Yn amodol ar 10.1.1 ac oni nodir yn wahanol o fewn y Cyfansoddiad neu'r Rheolau Sefydlog hyn, bydd yr holl Bwyllgorau a Phanelau yn atebol i'r Ymddiriedolwyr.

10.5 Bydd y broses o ethol a phenodi aelodau Pwyllgorau a Phanelau yn cael ei threfnu a'i

harolygu gan y Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd ar y cyd, a dylid hysbysebu cyfleoedd i wasanaethu arnynt yn rheolaidd.

10.6 Bydd yn ofynnol i'r aelodau a benodir feddu sgiliau addas a phrofiad perthnasol a dylid ceisio sicrhau cydbwysedd rhesymol ar draws aelodaeth pob Pwyllgor a Phanel o safbwynt rhywedd, oedran a chefndir yn unol ag Ymrwymiad 6 (Atodiad 1)

10.7 Penodir aelodau a chadeiryddion y Pwyllgorau a Phanelau am gyfnod hyd at 3 blynedd, ond bydd yr unigolion a benodir yn gymwys i'w hail-benodi am ddau gyfnod ychwanegol. Rhaid i o leiaf un aelod o bob pwyllgor fod yn Ymddiriedolwr.

10.8 Bydd yn ofynnol i'r holl Bwyllgorau a Phanelau gyfarfod o leiaf ddwywaith mewn blwyddyn oni nodir yn wahanol o fewn y Cyfansoddiad neu'r Rheolau Sefydlog.

10.9 Ni fydd cyfarfodydd Pwyllgorau a Phanelau'r Elusen yn agored i'r Wasg oni phenderfynir yn wahanol mewn achosion unigol.

10.10 Dylai o leiaf traean o'r aelodau a etholir bob blwyddyn fod yn perthyn i'r rhyw lleiafrifol y flwyddyn honno.

## 11. Yr Orsedd a Bwrdd yr Orsedd

11.1 Dylai yr Orsedd a Bwrdd yr Orsedd weithredu yn unol ag **Atodiad 3** y **Rheolau Sefydlog** hyn.

11.2 Cyfrifoldeb Bwrdd yr Orsedd fydd gweinyddu gwaith yr Orsedd yn ddarostyngedig i'r Amcanion, y Cyfansoddiad a'r Ddeddf.

11.3 Bydd hawl gan Fwrdd yr Orsedd i benodi un Ymddiriedolwr yn unol â 7.2 uchod.

11.4 Bydd staff yr Elusen yn cynnig cefnogaeth weinyddol i Fwrdd yr Orsedd yn unol â threfniant i'w gytuno rhwng yr Ymddiriedolwyr a Bwrdd yr Orsedd.

11.5 Bydd hawl gan yr Archdderwydd a'r Cofiadur i fynychu cyfarfodydd y Cyngor fel aelodau llawn o'r Cyngor gyda'r hawl i wneud sylwadau, i wneud cynigion ac i bleidleisio.

11.6 Bydd gan y Prif Weithredwr a phrif staff yr Elusen hawl i fynychu cyfarfodydd yr Orsedd a Bwrdd yr Orsedd fel sylwedyddion, gyda'r hawl i wneud sylwadau ac i wneud cynigion, ond nid i bleidleisio.

11.7 Bydd yr Orsedd a Bwrdd yr Orsedd yn cyflwyno i'r Ymddiriedolwyr fel argymhelliad unrhyw benderfyniad a wneir ganddynt a allai gael effaith ariannol ar yr Elusen ac ni fydd y penderfyniad hwnnw'n effeithiol heb gytundeb yr Ymddiriedolwyr.

# Atodiad 1: Ymrwymiadau – Datganiad o Fwriad

1. **Y Gymraeg yw iaith gweithgareddau'r Eisteddfod a'r Ŵyl.** Tra yn parchu'r egwyddor hon, dylid sicrhau fod gwybodaeth ar gael i'r di-Gymraeg, a gweithgareddau i rai sy'n dysgu'r Gymraeg.
2. Bwriadwn i'r Eisteddfod barhau i fod yn **Ŵyl deithiol/symudol**. Trwy weithio mewn partneriaeth â'r cymunedau lleol, awdurdodau lleol a chyrff eraill, dylid ymdrechu i sicrhau fod yr ymweliadau yn gymorth i hyrwyddo adnewyddiad y cymunedau, a bod y budd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol i'r ardaloedd hynny yn sylweddol a pharhaol.
3. Bwriadwn i'r Eisteddfod Genedlaethol ddathlu egni a chyfoesedd yr iaith Gymraeg, ardderchowgrwydd diwylliant Cymru, a'r traddodiadau gwerthfawr a drosglwyddwyd o genhedlaeth i genhedlaeth.
4. Bwriadwn i'r Eisteddfod barhau i fod yn **Ŵyl gystadleuol** yn ei hanfod. Dylid adolygu nifer a natur y cystadlaethau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn addas a pherthnasol i'r cyfnod.
5. Bwriadwn i'r Eisteddfod hefyd fod yn **llwyfan i'r goreuon** yn amrywiol agweddau'r diwylliant Cymreig a'r celfyddydau yng Nghymru, boed amatur neu broffesiynol.
6. Bwriadwn i'r Eisteddfod fod yn **Ŵyl gynhwysol** sy'n parchu a dathlu amrywiaeth yn ei holl weithgareddau a gweithdrefnau, a dylid sicrhau na ragfernir yn erbyn unrhyw un ar sail anabledd, cefndir, cred, crefydd, hil, oedran, rhyw, rhywedd na rhywioldeb.
7. Rhaid sicrhau **strwythur rheoli a threfniadol effeithiol** sy'n cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol ac ymarferol sy'n bodoli er mwyn sicrhau gweithredu amserol a diwastraff gan wneud y defnydd gorau o adnoddau. Dylai'r rheolaeth fod yn agored a thryloyw ac yn parchu egwyddorion sylfaenol priodoldeb a llywodraeth gorfforaethol yn gyffredinol.
8. Dylid **cydweithio** â chyrff lleol a chenedlaethol (cyrff cyhoeddus, cyrff gwirfoddol a chwmnïau preifat) a chymunedau Cymru er mwyn sicrhau llwyddiant yr Ŵyl.

# Atodiad 2: Pwerau a Dyletswyddau'r Llys, Y Bwrdd Rheoli a'r Cyngor

**Pwerau a Dyletswyddau'r Llys**

1. Ethol neu benodi (yn amodol ar y Rheolau Sefydlog) :
    a. unigolyn i weithredu fel Llywydd y Llys fydd yn rhinwedd y Swydd honno hefyd yn gweithredu fel Ymddiriedolwr a Chadeirydd Bwrdd Rheoli'r Eisteddfod
    b. unigolyn i weithredu fel Ysgrifennydd y Llys, y Cyngor a'r Bwrdd Rheoli
    c. unigolyn i weithredu fel Trysorydd yr Elusen, a fydd yn rhinwedd y Swydd honno hefyd yn gweithredu fel Ymddiriedolwr
2. Cadarnhau (neu wrthod cadarnhau) penodiadau Ymddiriedolwyr, yn amodol ar y Rheolau Sefydlog a'r Ddeddf
3. Diswyddo Ymddiriedolwyr, yn amodol ar y Rheolau Sefydlog a'r Ddeddf
4. Ethol unigolion i lenwi hyd at **24** sedd ar y Cyngor, yn unol â'r Rheolau Sefydlog
5. Diswyddo aelodau'r Cyngor yn amodol ar y Rheolau Sefydlog a'r Ddeddf
6. Trafod, a derbyn neu wrthod adroddiadau blynyddol gan :
    a. y Bwrdd Rheoli
    b. y Cyngor
    c. Bwrdd yr Orsedd
7. Derbyn neu wrthod Cyfrifon Blynyddol yr Elusen
8. Penodi'r Archwilwyr
9. Newid yr Amcanion a/neu'r Ymrwymiadau yn amodol ar y Ddeddf
10. Newid y Cyfansoddiad a'r Rheolau Sefydlog yn amodol ar y Ddeddf
11. Cadarnhau (neu wrthod cadarnhau) newidiadau i'r Rheolau Sefydlog, yn amodol ar y Cyfansoddiad a'r Ddeddf
12. Gweithredu unrhyw bwerau eraill sydd i'w gweithredu gan Gyfarfod Cyffredinol o dan y Ddeddf

**Pwerau a Dyletswyddau'r Bwrdd Rheoli**

1. Rheoli busnes yr Eisteddfod o ddydd i ddydd gan arfer holl bwerau'r Eisteddfod sydd heb gael eu cadw'n ôl i'r Cyngor neu i'r Llys.
2. Sicrhau fod yr Eisteddfod fel corff yn cydymffurfio gyda'r Cyfansoddiad, Rheolau Sefydlog, cyfraith elusennau ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall.
3. Sicrhau fod yr Eisteddfod yn hyrwyddo'r amcanion sydd wedi eu diffinio yn y Cyfansoddiad ac yn parchu'r ymrwymiadau sydd wedi eu rhestru yn y Rheolau Sefydlog.
4. Bod yn gyfrifol ar y cyd am weithredoedd yr Eisteddfod. Yr ymddiriedolwyr yn y pen draw sy'n gyfrifol am bopeth a wna'r Eisteddfod a hwy sy'n atebol os â pethau o chwith.
5. Sicrhau fod adnoddau'r Eisteddfod yn cael eu defnyddio'n unig i hyrwyddo'r amcanion. Ni all yr Eisteddfod wario unrhyw arian ar weithgareddau nad ydynt wedi eu cynnwys yn yr amcanion pa mor ddymunol bynnag y bônt.
6. Cyfrannu'n weithredol i waith y Bwrdd yn rhoi cyfeiriad strategol clir i'r Eisteddfod, llunio polisïau, gosod targedau a gwerthuso perfformiad.
7. Diogelu enw da a gwerthoedd yr Eisteddfod.
8. Datgelu unrhyw wrthdaro mewn buddiannau wrth gyflawni dyletswyddau ymddiriedolwr.
9. Sicrhau bod gweinyddiaeth yr Eisteddfod yn effeithiol ac effeithlon.
10. Sicrhau fod polisïau'r Eisteddfod, megis y polisi cyfle cyfartal, yn cael eu gweithredu.
11. Diogelu a rheoli eiddo'r Eisteddfod a sicrhau fod cronfeydd yr Eisteddfod yn cael eu buddsoddi'n briodol.
12. Sicrhau sefydlogrwydd ariannol yr Eisteddfod.
13. Sicrhau fod yr Eisteddfod wedi ei hyswirio'n briodol yn erbyn unrhyw gyfrifoldebau rhesymol.
14. Penodi neu gymeradwyo trefniadau penodi staff yr Eisteddfod a'r trefniadau adolygu eu perfformiad.
15. Adolygu cofrestr risg yr Eisteddfod ac ystyried pa gamau y dylid eu cymryd i drin neu liniaru'r risgiau.
16. Cynrychioli'r Eisteddfod mewn digwyddiadau a chyfarfodydd fel bo'n briodol.

**Pwerau a Dyletswyddau'r Cyngor**

1. Gweithredu fel bwrdd goruchwylio a chorff ymgynghorol mewn perthynas â'r Ymrwymiadau, gyda'r hawl i dderbyn neu wrthod adroddiadau rheolaidd gan yr Ymddiriedolwyr, ac i holi'r Ymddiriedolwyr a'u dwyn i gyfrif gerbron y Llys mewn perthynas ag unrhyw faterion sydd ym marn y Cyngor yn groes i'r Amcanion a/neu'r Ymrwymiadau
2. Gweithredu fel prif fforwm yr Elusen ar gyfer trafod, adolygu ac argymell (i'r Ymddiriedolwyr a/neu i'r Llys yn unol â'r Rheolau Sefydlog) strategaeth yr Elusen ar gyfer datblygiad yr Eisteddfod Genedlaethol i'r dyfodol
3. Ymateb i geisiadau gan yr Ymddiriedolwyr am arweiniad ar gyfer blaenoriaethu mewn perthynas â'r Ymrwymiadau
4. Derbyn neu wrthod argymhelliad gan yr Ymddiriedolwyr ar gyfer newid yr Amcanion a/neu'r Ymrwymiadau (ond bydd unrhyw newid yn amodol ar benderfyniad y Llys)
5. Cadarnhau (neu wrthod cadarnhau) newidiadau i'r Rheolau Sefydlog, yn amodol ar y Cyfansoddiad a'r Ddeddf
6. Arolygu gwaith y Pwyllgor Archwilio yn unol â'r Rheolau Sefydlog
7. Arolygu gwaith Pwyllgor Gweithredu'r Rheol Gymraeg yn unol â'r Rheolau Sefydlog
8. Arolygu gwaith unrhyw Bwyllgor neu Banel arall a sefydlir o dan arolygaeth y Cyngor yn unol â'r Rheolau Sefydlog
9. Ethol neu benodi (yn amodol ar y Rheolau Sefydlog) :
   a. unigolyn i weithredu fel Cadeirydd y Cyngor a fydd yn rhinwedd y Swydd honno hefyd yn gweithredu fel Ymddiriedolwr, Is-lywydd y Llys ac is-gadeirydd y Bwrdd Rheoli
   b. unigolyn i weithredu fel Is-gadeirydd y Cyngor a fydd yn rhinwedd y swydd honno hefyd yn gweithredu fel Ymddiriedolwr
   c. unigolyn i weithredu fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio
   ch. unigolyn i weithredu fel Cadeirydd Pwyllgor Gweithredu'r Rheol Gymraeg

10. Cyfethol unigolion
    a. i lenwi **6** sedd ar y Cyngor
    b. i lenwi bylchau achlysurol yn aelodaeth y Cyngor
11. Ethol hyd at **4** Ymddiriedolwr yn unol â'r Rheolau Sefydlog
12. Diswyddo Swyddogion yr Elusen (sef Llywydd y Llys, Cadeirydd y Cyngor, Is-gadeirydd y Cyngor, Ysgrifennydd y Llys, Trysorydd yr Elusen) a Chadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a Gweithredu'r Rheol Gymraeg yn amodol ar y darpariaethau ar gyfer hynny yn y Rheolau Sefydlog
13. Ethol Cymrodyr, yn unol â'r Rheolau Sefydlog
14. Derbyn neu wrthod argymhelliad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer pennu swm tanysgrifiadau Aelodaeth yr Elusen a'r dyddiad talu, yn unol â'r Rheolau Sefydlog
15. Penodi unigolyn i weithredu fel Ymddiriedolwr pan fo angen llenwi bwlch, gan fod yn ymwybodol o'r angen i sicrhau cydbwysedd sgiliau o fewn Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, gyda'r unigolyn hwnnw/honno i ddal ei swydd hyd at y Cyfarfod Cyffredinol nesaf sy'n dilyn

# Atodiad 3: Cyfansoddiad Yr Orsedd a Bwrdd yr Orsedd

## 1 Teitl

Arddelir yr enw **'Gorsedd Cymru'**, sy'n ymgorffori'r enw traddodiadol a seremonïol, **'Gorsedd Beirdd Ynys Prydain'**, a'r enw a arferir yn gyffredin, 'Gorsedd y Beirdd'. Yn llenyddiaeth yr Eisteddfod ac yn y ddogfen hon cyfeirir ati fel **'Yr Orsedd'**.

### 2 Amcanion

Y mae i'r Orsedd yr amcanion a ganlyn :

2.1 gwneud ei rhan yn ôl y *Rheolau Sefydlog* hyn yn nhrefniant a rheolaeth yr Eisteddfod
2.2 gofalu am arferion a defodau'r Orsedd a chyfarwyddo'r Llys yn y materion hyn
2.3 sicrhau cydweithrediad beirdd, llenorion, cerddorion a gwŷr y celfyddydau er mwyn datblygu, hyrwyddo a chyfoethogi barddas, llenyddiaeth, cerddoriaeth a chelfyddyd o bob math yng Nghymru
2.4 cynnal seremonïau'r Orsedd yn y Cyhoeddi, yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Cymru, neu fannau achlysurol eraill
2.5 cadw cyswllt â'r gwledydd Celtaidd eraill, ac yn arbennig â'r Is-Orseddau a sefydlwyd ganddi yng Nghernyw, Llydaw a'r Wladfa.
2.6 bod yn gynhwysol a chyfartal yn ei gweithgareddau

### 3 Iaith

3.1 Y Gymraeg fydd iaith yr Orsedd
3.2 Ni ellir newid y rheol hon o dan unrhyw amgylchiadau.
3.3 Er hynny, fe fydd gan yr Archdderwydd hawl i wahodd dirprwyaethau i'w chyfarch mewn ieithoedd Celtaidd eraill.

### 4 Aelodaeth

4.1 Amod cyntaf aelodaeth yr Orsedd yw medru'r Gymraeg
4.2 Rhaid i'r sawl a urddir i'r Orsedd fod eisoes yn aelod cyfredol o'r Llys neu, wrth dderbyn gwahoddiad i gael ei urddo, yn ymaelodi â'r Llys gan dalu tâl aelodaeth drwy danysgrifiad am oes neu danysgrifiad blynyddol
4.3 Trwy wahoddiad yn unig y gellir ymuno â'r Orsedd, a gellir cael gwahoddiad i ymuno drwy un o dair ffordd :
4.3.1 drwy lwyddo yn arholiadau'r Orsedd
4.3.2 drwy ennill gradd Brifysgol yn unol â 5.4. isod
4.3.3 fel aelod drwy anrhydedd
4.3.4 drwy ennill un o brif wobrau'r Eisteddfod neu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn unol â pharagraff 5
4.4 Aelodau'r Orsedd yn unig a fedd yr hawl i :

4.4.1 wisgo urddwisg yr Orsedd
4.4.2 ymuno yn ei gorymdeithiau
4.4.3 gymryd rhan yn ei chyfarfodydd.

## 5 Yr Urddau

Perthyn i'r Orsedd un urdd, sef Urdd Derwydd, ond derbynnir aelodau i'r Urdd mewn Gwisg Wen, Werdd neu Las fel a ganlyn:

5.1. Urdd Derwydd Gwisg Wen – Derbynnir i'r Wisg Wen enillwyr prif wobrau'r Eisteddfod, sef Y Gadair, Y Goron, Y Fedal Ryddiaith, Gwobr Goffa Daniel Owen, Y Fedal Ddrama, Dysgwr y Flwyddyn, Tlws y Cerddor, Y Fedal Aur am Gelf, Y Fedal Aur am Grefft, Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn, Y Fedal Wyddoniaeth a Thechnoleg, Gwobr Goffa David Ellis (Y Rhuban Glas), Gwobr Goffa'r Fonesig Ruth Herbert Lewis, Gwobr Aled Lloyd Davies, Gwobr Goffa Richard Burton, Ysgoloriaeth Towyn Roberts, Medal Goffa Syr T H Parry-Williams Er Clod, y Rhuban Glas Offerynnol dros 19 oed, Gwobr Goffa Osborne Roberts ac unrhyw brif wobrau eraill a sefydlir ac a ychwanegir at y rhestr gan Fwrdd yr Orsedd.

5.2. Urdd Derwydd Gwisg Werdd (Y Celfyddydau) – Derbynnir i'r Wisg Werdd enillwyr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd (Y Gadair, Y Goron ac unrhyw brif wobrau eraill a gymeradwyir gan Fwrdd yr Orsedd) ac eraill naill ai:
5.2.1 trwy lwyddo yn arholiad yr Orsedd (sef yr arholiad terfynol) mewn Cymraeg a Cherddoriaeth.
5.2.2 trwy anrhydedd a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Orsedd oherwydd eu dawn mewn Llenyddiaeth, Cerddoriaeth, Drama neu Gelf neu faes celfyddydol arall a gymeradwyir gan Fwrdd yr Orsedd.

5.3 Urdd Derwydd Gwisg Las – Derbynnir i'r Wisg Las trwy anrhydedd a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Orsedd rai a roddodd wasanaeth arbennig i'r genedl mewn meysydd megis y Gyfraith, Gwyddoniaeth, Chwaraeon, Newyddiaduriaeth, y Cyfryngau, Gwleidyddiaeth, Busnes ac Addysg neu a wasanaethodd fel Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Lleol yr Eisteddfod Genedlaethol neu a roddodd wasanaeth arbennig i'w bro.

5.4 Derbynnir hefyd i Urdd Derwydd raddedigion Prifysgol yn y Gymraeg neu mewn Cerddoriaeth neu mewn unrhyw bynciau eraill ar yr amod eu bod wedi cwblhau o leiaf ddwy ran o dair o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yn ofynnol i bob unigolyn wneud cais i'r Cofiadur i gael ei dderbyn.

5.5 Bydd unrhyw berson sydd eisoes wedi cael ei urddo i'r Wisg Las neu Werdd o ennill un o brif wobrau yr Eisteddfod Genedlaethol o Eisteddfod 2011 ymlaen yn derbyn gwahoddiad i newid i'r Wisg Wen.

5.6 Ystyrir Derwyddon a enillodd Fedal Ryddiaith neu Goron neu Gadair yr Eisteddfod Genedlaethol yn Briflenorion neu'n Brifeirdd yng Ngorsedd.

5.7 Ni fydd unrhyw aelod o'r Orsedd a urddwyd cyn 2012 yn newid lliw ei wisg/gwisg ac eithrio yn unol â pharagraff 5.5 uchod.'

## 6 Cyfarfod Cyffredinol yr Orsedd

6.1 Cyfarfod Cyffredinol yr Orsedd yw awdurdod llywodraethol yr Orsedd.

6.2 Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Orsedd yn ystod wythnos yr Eisteddfod ac ar Faes yr Eisteddfod neu le cyfagos.

6.3 Ei waith fydd :
6.3.1 ethol Swyddogion yr Orsedd, neu gadarnhau canlyniad etholiadau a gynhaliwyd gan yr Orsedd drwy'r post
6.3.2 ystyried a derbyn neu wrthod adroddiad Bwrdd yr Orsedd
6.3.3 trafod a phenderfynu ar faterion eraill perthnasol i'r Orsedd y bydd y Cofiadur wedi derbyn rhybudd digonol amdanynt i'w gosod ar yr agenda.

6.4 Llywyddir Cyfarfodydd Cyffredinol yr Orsedd gan yr Archdderwydd, neu yn absenoldeb yr Archdderwydd, gan y Dirprwy Archdderwydd, a bydd rheolau Cyfarfodydd Cyffredinol yr Orsedd yr un â Rheolau Cyfarfodydd Cyffredinol y Llys fel y'u ceir yn y *Rheolau Sefydlog*.

6.5 Bydd hawl gan Fwrdd yr Orsedd i alw Cyfarfod Cyffredinol Arbennig yr Orsedd os bydd angen penderfyniad ar fater o bwys anarferol neu gyfansoddiadol.

6.6 Yn amodol ar gadarnhad y Llys yn unol â rheol sefydlog 1.4, bydd gan yr Orsedd hawl i newid unrhyw ran o'r Atodiad hwn (ac eithrio 3.1. a 3.2) drwy gynnig mewn penderfyniad

arbennig gan Fwrdd yr Orsedd a'i basio trwy fwyafrif dwy ran o dair o'r aelodau a fo'n bresennol yn y Bwrdd ac yn pleidleisio, a'i gadarnhau wedyn gan Gyfarfod Cyffredinol yr Orsedd trwy fwyafrif dwy ran o dair o'r aelodau a fo'n bresennol ac yn pleidleisio.

6.6.1 Rhaid rhoddi o leiaf ddeng niwrnod o rybudd ysgrifenedig cyn y cyfarfod i aelodau'r Bwrdd a'r Orsedd.

6.6.2 Bydd y newid hwnnw yn weithredol ar ôl iddo gael ei gadarnhau gan y Llys mewn Cyfarfod Cyffredinol.

## 7 Swyddogion yr Orsedd

7.1 Bydd Swyddogion yr Orsedd, ynghyd â'u gwaith fel a ganlyn:

- 7.1.1 yr Archdderwydd fydd pennaeth yr Orsedd a bydd yn llywyddu yn holl seremonïau a chyfarfodydd yr Orsedd ac yn Gadeirydd Bwrdd yr Orsedd
- 7.1.2 y Cyn-Archdderwyddon fydd yn cynorthwyo'r Archdderwydd a gweithredu yn lle'r Archdderwydd os digwydd i'r Archdderwydd fod yn absennol; bydd y Cyn-Archdderwydd a fu ddiwethaf yn y swydd yn Ddirprwy Archdderwydd

7.2 y **Cofiadur** fydd yn gweithredu fel Ysgrifennydd Bwrdd yr Orsedd, yn arolygu seremonïau'r Orsedd, cadw cofnodion yr Orsedd a rhestr y Gorseddogion, galw ei chyfarfodydd a chynnull y Gorseddogion ar adegau cynnal Gorsedd, Cyhoeddi'r Eisteddfod a Seremonïau eraill yn ôl y gofyn

7.3 **Ysgrifennydd yr Aelodaeth** fydd yn cofnodi enwau a chyfeiriadau'r holl Orseddogion a dderbyniwyd i'r Orsedd ynghyd â'u henwau yng Ngorsedd. Bydd yn adolygu'r rhestr yn flynyddol gan gofnodi marwolaethau ac ymddiswyddiadau. Bydd yn cadw hefyd yn flynyddol restr aelodau'r Orsedd sydd yn aelodau cyfredol o'r Llys. Bydd yn derbyn gan y Cofiadur restr y Gorseddogion a urddir

7.4 yr **Arwyddfardd**, mewn cydymgynghoriad â'r Cofiadur, fydd â chyfrifoldeb am ddodrefn yr Orsedd, ei seremonïau a'i gorymdeithiau, ynghyd â lleoliad Cylch yr Orsedd, a chyflwyno i'r Llys drwy Fwrdd yr Orsedd adroddiad blynyddol ynghylch eiddo'r Llys sydd o dan ofal yr Arwyddfardd

7.5 **Ceidwad y Cledd** fydd yn gofalu am Gleddyf yr Orsedd yn y gorymdeithiau a'r seremonïau

7.6 y **Trysorydd** fydd yn gofalu am faterion ariannol a berthyn i'r Orsedd

7.7 y **Swyddog Cyfraith** fydd yn cyfarwyddo Bwrdd yr Orsedd ar unrhyw faterion cyfreithiol mewn perthynas â'r Orsedd

7.8 **Trefnydd yr Arholiadau** fydd yn trefnu, dan Bwyllgor yr Arholiadau, yr holl waith ynglŷn â phenderfynu maes llafur, gweinyddu'r arholiadau, cyflwyno rhestr yr ymgeiswyr llwyddiannus i'r Cofiadur, gan ofalu am y tystysgrifau swyddogol wedi eu llofnodi i'w cyflwyno iddynt

7.9 y **Trefnydd Cerdd** fydd â goruchwyliaeth dros holl waith cerddorol yr Orsedd

7.10 **Arolygydd y Gwisgoedd** fydd yn gofalu bod y gwisgoedd a'r tlysau a wisgir yn cael eu cadw'n lân a chyfaddas ar gyfer y seremonïau, ac yn cydlynu gwaith y cynorthwywyr lleol

7.11 **Swyddog y Celtiaid** fydd yn goruchwylio ymweliadau'r Cynrychiolwyr Celtaidd â'r Ŵyl ac ymweliadau aelodau'r Orsedd â'r gwledydd Celtaidd.

## 8 Ethol Archdderwydd

8.1 Etholir yr Archdderwydd am dymor o dair blynedd gan aelodau'r Orsedd drwy bleidlais bost. Os digwydd blwyddyn (Blwyddyn Eithriadol) yn ystod y tymor hwn o dair blynedd lle, oherwydd amgylchiadau eithriadol,

(1) na fydd yr Eisteddfod wedi'i chynnal; neu

(2) bydd Eisteddfod wedi'i chynnal ond nid fel gŵyl gyhoeddus sydd yn agored i bawb i fod yn bresennol ynddi

gall Bwrdd yr Orsedd estyn y tymor hwn wrth flwyddyn ychwanegol am bob Blwyddyn Eithriadol hyd at uchafswm o dair o flynyddoedd ychwanegol.

Os estynnir y tymor hwn yn y fath fodd:

(a) fe estynnir hefyd i'r un graddau y cyfnodau o dair blynedd a nodir yn 9.4 ac yn 10.4.2

(b) fe estynnir i'r un graddau dymor aelodau o Fwrdd yr Orsedd a etholwyd dan 10.2 ac fe ohirir i'r un graddau y rheidrwydd ar i'r aelodau hynny o Fwrdd yr Orsedd gilio o'u swyddi dan 10.2.2 (ac fe ddarllenir y cyfeiriad ar chwe blynedd yn 10.2.2 fel cyfeiriad at gyfanswm dau dymor fel yr estynnyd nhw).

8.2 Etholir yr Archdderwydd o blith y Prifeirdd a'r Priflenorion yng Ngorsedd.

8.3 Ni ellir ailethol Archdderwydd hyd onid elo tair blynedd arall heibio ar ôl diwedd y tymor o dair

blynedd, a nodir yn 8.1 (a lle estynnwyd y tymor, y tymor estynedig hwnnw), oni bai bod swydd yr Archdderwydd wedi dod yn wag.

8.4 Bydd hawl gan unrhyw aelod o'r Orsedd enwebu Archdderwydd ar gyfer etholiad, gan ofyn i'r Cofiadur am ffurflen enwebu.

8.5 Ni ellir enwebu neb heb ei ganiatâd, a bydd yr un a enwebir yn llofnodi'r ffurflen enwebu i arwyddo'r caniatâd hwnnw. Llofnodir â'r llofnod arferol, ac ychwanegir yr enw yng Ngorsedd.

8.6 Rhaid i'r sawl a enwebir fod yn aelod cyfredol o Lys yr Eisteddfod.

8.7 Rhaid i gynigydd ac eilydd, ynghyd â phum cefnogydd arall, lofnodi'r ffurflen enwebu â'u llofnodau arferol, ac ychwanegu eu henwau yng Ngorsedd. Rhaid i'r saith hyn a fydd â'u henwau ar y ffurflen enwebu fod hefyd yn aelodau cyfredol o Lys yr Eisteddfod.

8.8 Dychwelir at y Cofiadur :

(a) y ffurflen enwebu, wedi ei llenwi'n briodol, a

(b) cyflwyniad ar ran yr un a enwebir, heb fod dros 200 o eiriau, yn cynnwys manylion priodol am gefndir diwylliannol yr unigolyn ac addasrwydd yr unigolyn i lenwi'r swydd.

8.9 Derbynnir enw pawb a enwebir yn ddilys, a gosodir yr enwau ar ffurflen bleidleisio yn nhrefn yr wyddor.

8.10 Ni chaniateir canfasio ar ran y sawl a enwebwyd ar gyfer ethol Archdderwydd.

8.11 Anfonir at bob aelod o'r Orsedd y cyflwyniadau a luniwyd ar ran y rhai a enwebwyd ynghyd â ffurflen bleidleisio, a gofyn i'r aelod bleidleisio gan nodi (os bydd mwy na dau ymgeisydd) ddewis cyntaf, ail ddewis a thrydydd dewis, ond nid unrhyw ddewis y tu hwnt i dri. Os na fydd ond dau ymgeisydd, pleidleisir i un ohonynt drwy ddodi X gyferbyn â'r enw.

8.12 Dychwelir y papurau pleidleisio at y Cofiadur.

8.13 Os bydd mwy na dau ymgeisydd, cyfrifir y sawl a gaiff flaenoriaeth yn unol â threfn aml-bleidleisio yn ôl Rheolau Pleidleisio a luniwyd ar gyfer yr Orsedd ac a gadarnhawyd gan Fwrdd yr Orsedd.

8.14 Ni hysbysir neb am ganlyniad yr Etholiad hyd nes y cyhoeddir enw'r un a etholwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Orsedd i'w gadarnhau yn ffurfiol. Fe'i cyflwynir wedyn yn Archdderwydd Etholedig gan yr Archdderwydd ar y llwyfan ar ddechrau seremoni Orseddol cyn diwedd wythnos yr Eisteddfod, ac fe'i gorseddir yng Ngorsedd Gŵyl y Cyhoeddi y flwyddyn ganlynol.

8.15 Erys pob Cyn-Archdderwydd yn ei swydd fel Cyn-Archdderwydd am oes, a bydd am oes yn aelod o'r Llys a Bwrdd yr Orsedd.

## 9 Penodi Swyddogion Eraill

9.1 Pan fydd angen penodi Swyddog ar gyfer unrhyw un o'r swyddogaethau a enwir yn 7.2– 7.11 uchod, bydd Bwrdd yr Orsedd yn y lle cyntaf, wedi derbyn argymhellion gan is-bwyllgor a gynullir yn arbennig, yn ethol un drwy bleidlais ac, wedi sicrhau caniatâd yr unigolyn, yn cyflwyno'r enw gerbron Cyfarfod Cyffredinol yr Orsedd.

9.2 Bydd hawl gan unrhyw aelod o'r Orsedd nad yw'n aelod o'r Bwrdd enwebu enw arall. Osbydd cynnig ac eilio ar enw arall, a bod y sawl a enwebir yno i ganiatáu i'w (h)enw fynd ymlaen, rhoir yr enwau oll gerbron Cyfarfod Cyffredinol yr Orsedd ac fe etholir y Swyddog drwy bleidlais ddirgel.

9.3 Oni chynigir enw arall yna, wedi cael cynigydd ac eilydd i'r enw a gymeradwyir gan y Bwrdd, fe geir pleidlais agored ar yr enw hwnnw.

9.4 Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau sy'n ymwneud â Blwyddyn Eithriadol a nodir yn 8.1, etholir pob swyddog am gyfnod o dair blynedd, ond bydd ar derfyn y cyfnod yn agored i'w (h)ailethol.

9.5 Bydd gan Fwrdd yr Orsedd hawl i lenwi bylchau ymysg yr 11 swyddog hyn gan ddilyn yr un drefn, ond ni fydd i'r sawl a etholir felly aros yn y swydd yn hwy na gweddill cyfnod y cyn-swyddog. Bydd yn agored wedyn i'w (h)ailethol gan Gyfarfod Cyffredinol yr Orsedd yn ôl trefn 9.1 – 9.4 uchod.

## 10 Bwrdd yr Orsedd

10.1 Swyddogaeth Bwrdd yr Orsedd fydd gweithredu fel Pwyllgor Gweinyddol i'r Orsedd, gan oruchwylio holl ddyletswyddau a buddiannau'r Orsedd.

10.1.1 Cyfrifoldeb y Bwrdd fydd cadarnhau enwau'r rhai a fydd yn cael eu hurddo yn aelodau'r Orsedd, yn dilyn penderfyniadau Pwyllgor yr Urddau.

10.2 Ffurfir Bwrdd yr Orsedd gan Swyddogion yr Orsedd a deuddeg o aelodau eraill o'r Orsedd a

etholir gan aelodau'r Orsedd.

10.2.1 Etholir y deuddeg hyn drwy bleidlais bost a gadarnheir yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Orsedd

10.2.2 O'r deuddeg aelod hyn, bydd pedwar yn cilio o'u swydd bob blwyddyn ond byddant ar dir i'w hailethol am ail dymor. Wedi gwasanaethu am ddau dymor olynol (sef chwe blynedd) ni fyddant yn gymwys i'w hailethol eto am flwyddyn, oni bai iddynt gael eu hethol yn un o Swyddogion yr Orsedd.

10.3 Bydd gan y Bwrdd hawl i wneud rheolau i gyflawni ei waith ac i ymddiried gwaith arbennig i'w Bwyllgorau Sefydlog neu i bwyllgorau arbennig a ffurfir yn ôl y galw, megis Panel y Sermonïau i ddewis y rhai a fydd yn cymryd rhan yn flynyddol.

10.4 Pwyllgorau Sefydlog Bwrdd yr Orsedd :

10.4.1 **Pwyllgor yr Arholiadau** a fydd yn cynnwys yr Archdderwydd, y Cofiadur, Trefnydd yr Arholiadau, yr arholwyr a thri aelod arall i'w hethol gan y Bwrdd. Bydd y Pwyllgor hwn yn cyfarfod yn ôl y galw i drefnu'r meysydd llafur, yr arholiadau a'r arholwyr

10.4.2 **Pwyllgor yr Urddau** a fydd yn cynnwys yr Archdderwydd, y Cyn-Archdderwyddon, y Cofiadur, yr Arwyddfardd Swyddog yr Arholiadau, Arolygydd y Gwisgoedd a thri aelod arall a etholir (fesul un) yn flynyddol gan y Bwrdd am dymor o dair blynedd, ac heb fod yn agored wedyn i'w hailethol am dymor olynol, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau sy'n ymwneud â Blwyddyn Eithriadol a nodir yn 8.1. Bydd y Pwyllgor hwn yn ystyried pob enw a gynigiwyd gan aelodau'r Orsedd ar gyfer ei (h)urddo drwy anrhydedd, gan ddethol yr enwau i'w cadarnhau gan y Bwrdd. Ni ddylai unrhyw aelod o Banel yr Urddau enwebu nac eilio neb ar gyfer eu hurddo.

10.4.3 **Pwyllgor Brys** a fydd yn cynnwys yr Archdderwydd, y Cyn-Archdderwyddon, y Cofiadur, y Trysorydd ac un aelod o'r Bwrdd heb fod yn swyddog. Cynullir y Pwyllgor Brys i benderfynu ar fater y bydd angen dyfarniad buan yn ei gylch, a bydd ganddo hawl i weithredu yn enw Bwrdd yr Orsedd.

10.5 Cworwm y Bwrdd a'i bwyllgorau fydd **un rhan o dair** o'r aelodau.

# Atodiad 4: Polisi Parch yng Ngwaith a Gweithgareddau'r Eisteddfod

**Cyflwyniad**

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i aelodau staff, Bwrdd Rheoli, Cyngor, Llys, pwyllgorau canolog a lleol, cystadleuwyr, gwirfoddolwyr a phawb sy'n ymwneud â'r Eisteddfod.

Mae'r Eisteddfod wedi ymrwymo i fod yn ŵyl gynhwysol sy'n parchu a dathlu amrywiaeth yn ei holl weithgareddau a gweithdrefnau, ac i sicrhau na ragfernir yn erbyn unrhyw un ar sail anabledd, cefndir, cred, crefydd, hil, oedran, rhyw, rhywedd na rhywioldeb (Rheolau Sefydlog yr Eisteddfod, 2022).

Mae'r corff yn cydnabod a chredu bod gan bawb yr hawl i gael eu trin yn gyfartal a chydag urddas a pharch. Mae bwlio, aflonyddu a/neu wahaniaethu yn niweidiol ac yn gallu achosi gofid, salwch, damweiniau a pherfformiad gwael.

Ni fydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn goddef nac yn derbyn unrhyw fath o fwlio, aflonyddu na wahaniaethu. Bydd yn delio gyda chwynion o'r fath ymddygiad yn ddifrifol iawn ac yn gweithredu ar unwaith. Yn achos aelod o staff, gall hyn arwain at gamau disgyblu a diswyddo. Mewn achosion eraill, gall arwain at derfynu aelodaeth o bwyllgor neu grŵp, naill ai dros dro neu'n barhaol, a neu wahardd yr unigolyn rhag mynychu a chymryd rhan yng ngweithgareddau'r Eisteddfod.

**Diffinio Bwlio, Aflonyddu a Gwahaniaethu.**

Gellir diffinio bwlio fel "ymddygiad digroeso gan berson neu grŵp sydd naill ai'n ymosodol, bygythiol, maleisus a neu sarhaus; neu gamddefnyddio pŵer i danseilio, bychanu neu achosi niwed corfforol neu emosiynol i rywun" (ACAS, 2023).

Gellir diffinio aflonyddu fel "ymddygiad digroeso sy'n niweidio urddas pobl neu'n creu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, bychanol neu dramgwyddus i berson" (ACAS, 2023).

Gellir diffinio gwahaniaethu fel trin rhywun yn annheg ar sail un o'r nodweddion gwarchodedig canlynol (Deddf Cydraddoldeb 2010):

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- statws priodasol neu bartneriaeth sifil
- beichiogrwydd neu famolaeth
- hil (gan gynnwys lliw, cenedligrwydd, a tharddiad ethnig a/neu genedlaethol)
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol

Gall bwlio, aflonyddu a/neu wahaniaethu gynnwys y canlynol, ac nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr:

- trin unrhyw un yn annheg;
- lledaenu straeon maleisus, neu sarhau person trwy air neu weithred;
- anfon cyfathrebiad ar unrhyw ffurf sy'n feirniadol am rywun i bobl eraill lle nad oedd angen iddynt dderbyn y wybodaeth – gan gynnwys trolio ar rwydweithiau cymdeithasol;
- gwawdio neu ddiraddio rhywun;
- pigo arnynt neu weithredu mewn modd er mwyn sicrhau y byddant yn methu;
- gwahardd neu erlid unrhyw un;
- goruchwylio'n ormesol neu gamddefnyddio pŵer neu safle;
- cynigion neu awgrymiadau rhywiol digroeso – cyffwrdd, sefyll yn rhy agos, arddangos deunydd

tramgwyddus;
- tanseilio unrhyw un yn fwriadol trwy orlwytho a beirniadu'n gyson.

**Y Broses**

Mae gan yr Eisteddfod Genedlaethol ddyletswydd i ymchwilio a gweithredu ar bob adroddiad o fwlio, aflonyddu a /neu wahaniaethu. Mae'r corff yn gwerthfawrogi fod adrodd ar achos o'r fath yn gallu bod yn anodd ac achosi embaras, a bydd pob achos yn cael ei drin â gofal a sensitifrwydd.

Mae bwlio, aflonyddu a/neu wahaniaethu yn gwbl annerbyniol, a dylid cynghori'r person a dramgwyddwyd (neu eu cynrychiolydd) i wneud cwyn ffurfiol. Dylai'r gwyn fod yn ysgrifenedig, a lle bo'n bosibl, dylid nodi:
- enw'r tramgwyddwr honedig;
- natur yr ymddygiad honedig;
- dyddiadau ac amseroedd pan ddigwyddodd yr ymddygiad;
- enwau unrhyw dystion i achosion o fwlio, aflonyddu a/neu wahaniaethu;
- camau a gymerwyd eisoes i atal yr ymddygiad honedig.

Dylid anfon y gwyn at y Prif Weithredwr. Os yw'r gwyn yn ymwneud â'r Prif Weithredwr, dylid cyfeirio'r gŵyn at Gadeirydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol, neu os yw'n ymwneud ag aelod o'r Bwrdd dylid ei hanfon at Ysgrifennydd y Bwrdd Rheoli.

Ar ôl derbyn cwyn dylid cymryd camau ar unwaith i wahanu'r person sy'n gyfrifol am yr ymddygiad honedig. Yn achos aelod o staff, dylid tynnu cyfrifoldebau sy'n berthnasol i'r gŵyn oddi arnynt, neu eu hatal o'r gwaith gyda thâl nes bod y gwyn wedi ei datrys.

Mewn achosion eraill, ac os yw'r gŵyn yn ymwneud â gwaith grŵp neu bwyllgor, dylid atal y person sy'n gyfrifol am yr ymddygiad honedig o fynychu'r grŵp neu bwyllgor nes bod y gwyn wedi ei datrys.

Bydd y Prif Weithredwr, Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol neu Ysgrifennydd y Bwrdd fel y bo'n briodol yn ymchwilio i'r honiad drwy gynnal ymchwiliad trylwyr, yn unol â'r amserlen a geir ym Mholisi Pryderon a Chwynion yr Eisteddfod, gan sicrhau cyfrinachedd bob amser.

Disgwylir i bawb sy'n rhan o'r ymchwiliad barchu'r angen am gyfrinachedd. Yn achos aelod o staff, bydd methu â gwneud hynny'n cael ei ystyried yn gamymddwyn yn unol â Pholisi Disgyblu'r Elusen.

Yn dilyn yr ymchwiliad, bydd y Prif Weithredwr, Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol neu'r Ysgrifennydd yn ystyried pa gamau pellach y dylid eu cymryd ac yn hysbysu'r bobl berthnasol o'u penderfyniad.

Yn achos aelod o staff, gall hyn olygu camau yn unol â'r drefn ddisgyblu ffurfiol, a allai gynnwys diswyddo. Yn achos pawb arall gall hyn olygu gwahardd unigolyn rhag mynychu a chymryd rhan yng ngweithgareddau'r Eisteddfod.

**Hawl i Apelio**

Mae gan aelod o staff sy'n anghytuno â'r penderfyniad disgyblu hawl i apelio'n erbyn y penderfyniad. Dylid gwneud hyn drwy gysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol.

Bydd gan unrhyw berson arall hawl i apelio'n erbyn unrhyw ddyfarniad yn eu herbyn drwy apelio i Lywydd y Llys.